Annwyl Bawb

E-FWLETIN 29 MAI 2008

Bu'n fis prysur arall yma ym Morlan gan orffen, yn llythrennol, ar nodyn uchel gyda chynhyrchiad gwych cwmni What Was That? o'r sioe gerdd boblogaidd *Jesus Christ Superstar*.

Nodir isod y digwyddiadau amrywiol sy'n cael eu cynnal yma dros yr wythnosau nesaf.

- Heno (29 Mai) y mae **Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru** yn cynnal noson agored yma – cyfle i bobl ddysgu mwy am awtistiaeth a Syndrom Asperger ac am Grwpiau Cymdeithasol y mudiad hefyd. Bydd y noson yn dechrau am 7.30.
- **Grŵp Tref Trawsnewid Aberystwyth** fydd yn cyfarfod yma ar nos Lun, 2 Mehefin – rhwng 6.30 a 9.30.
- Bydd ein Haelod Seneddol, Mark Williams, yn dychwelyd yma ar ddydd Gwener, 6 Mehefin i gynnal **Cymhorthfa** rhwng 10.00 a 12.00.
- Fe'ch atgoffir eto am gyngerdd ***Côr Cytgan*** ar nos Sadwrn, 7 Mehefin. Côr siambr ydynt sy'n mwynhau dod at ei gilydd i ddiddanu cynulleidfaoedd. Bydd elw'r noson yn mynd at elusen leol.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnal **Sesiynau Gwybodaeth am Recriwtio** yma ar ddydd Iau, 12 Mehefin 2008 am 12.30, 2.00, 4.00, 5.30 a 6.30 y prynhawn. Bydd y sesiynau'n rhoi manylion am bethau megis y mathau o swyddi gwag a ragwelir, pa sgiliau sy'n ofynnol, a manteision gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru; bydd cyfle hefyd i siarad ag un o Gynghorwyr y Cynulliad. Os gwyddoch am unrhyw un sydd â diddordeb mewn gyrfa gyda'r Cynulliad cofiwch ddweud wrthynt am y digwyddiad hwn.
- Penderfynwyd estyn arddangosfa ***Faded Memories*** gan Lisa Evans nes diwedd Mehefin – mae croeso chi alw heibio unrhyw bryd i weld ei gwaith. I gyd-fynd â'r arddangosfa bydd Cymorth i Fenywod yn cynnal **bore goffi** yma o 11.00 i 1.00 ar ddydd Sadwrn, 14 Mehefin.
- Yn olaf, ar brynhawn Mawrth, 17 Mehefin bydd Morlan yn croesawu Theatr Hijinx yma gyda'u perfformiad o ddrama Glenys Evans ***Full Circle***. Seiliwyd y ddrama ar stori wir am fachgen â Syndrom Down a ddringodd i Wersyll Cyntaf Mynydd Everest yn 1996 gan gyflawni rhywbeth na fyddai'r mwyafrif ohonom yn hyd yn oed meddwl rhoi cynnig arno. Chwaraeir rhan y bachgen gan Nick Wayland Evans a Gareth Clark. Mae gan Gareth hefyd Syndrom Down a, thrwy weithio ar y cynhyrchiad hwn, bydd yn dringo ei Fynydd Everest ei hun. Bydd yn siwrnai heriol ac yn stori sy'n siŵr o ysbrydoli pawb. Dyma'r unig gyfle gewch chi i weld y ddrama ym Morlan; ffoniwch felly os am archebu tocynnau (pris: £6/£4).

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych chi'n dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr